

# Troseddau Fferm a Chefn Gwlad yng Nghymru 2025

Dadansoddiad cynhwysfawr o batrymau troseddau gwledig, eu heffeithiau ac ymatebion cymunedol yn seiliedig ar Arolwg Troseddau Gwledig LPIP 2025.

Dr Gareth Norris a Dr Wyn Morris  
Prifysgol Aberystwyth



# Tabl Cynnwys

03

---

## Crynodeb Gweithredol

Prif ganfyddiadau ac argymhellion

05

---

## Erledigaeth Troseddau Fferm

Dadansoddi erledigaeth uniongyrchol a digwyddiadau

08

---

## Ymwybyddiaeth o Droseddau ac Atal Troseddu

Canfyddiadau cymunedol a mesurau diogelwch

11

---

## Effaith Trosedd ar Lesiant

Iechyd meddwl a newidiadau ymddygiadol

04

---

## Cyflwyniad a Methodoleg

Cefndir a dull yr arolwg

06

---

## Ymateb yr Heddlu a Boddhad

Darparu gwasanaethau a chysylltiadau cymunedol

09

---

## Troseddau Bywyd Gwyllt ac Amgylcheddol

Categoriâu ac effeithiau troseddau arbenigol

13

---

## Casgliadau ac Argymhellion

Goblygiadau polisi a chyfeiriadau'r dyfodol

# Crynodeb Gweithredol

Casglodd Arolwg Troseddau Gwledig LPIP 2025 ymatebion gan 164 o gyfranogwyr ledled Cymru, gan roi darlun hanfodol o sefyllfa troseddau fferm a chefn gwlad. Mae'r astudiaeth gynhwysfawr hon yn datgelu heriau sylweddol sy'n wynebu cymunedau gwledig, agweddau tuag at droseddu a phlisma, ac yn dangos ymgysylltiad cryf gan gymunedau â phroblemau troseddau gwledig.

**22%**

**Erledigaeth Troseddau Fferm**

O'r ffermydd a arolygwyd wedi profi troseddau yn ystod y 12 mis diwethaf

**78%**

**Bodddhad gydag Ymateb yr Heddlu**

O'r dioddefwyr heb riportio troseddau i'r heddlu

**81%**

**Ymwybyddiaeth o Droseddau Amgylcheddol**

Wedi dweud eu bod yn ymwybodol o rai troseddau amgylcheddol yn eu hardaloedd


Mae'r prif ganfyddiadau yn dangos bod cymunedau gwledig yn wynebu heriau parhaus gyda dwyn, difrod i eiddo, a throseddau amgylcheddol, tra'n profi ymateb cyfyngedig gan yr heddlu a gwasanaethau cymorth cyfyngedig. Mae'r arolwg yn datgelu bylchau sylweddol mewn atal troseddu, mecanweithiau riportio, a systemau cymorth cymunedol.

# Cyflwyniad a Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Arolwg Troseddau Gwledig LPIP 2025, gan adeiladu ar ymchwil flaenorol gan Norris a Morris ar droseddau fferm a chefn gwlad yng Nghymru. Mae'r astudiaeth yn archwilio patrymau troseddu, ymatebion yr heddlu, ac effeithiau cymunedol ar draws cymunedau gwledig Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar fentrau ffermio a throseddau amgylcheddol.

## Demograffeg yr Arolwg


- Trigolion Cefn Gwlad
- Ffermwyr



Roedd methodoleg yr arolwg yn defnyddio dull cymysg, gan gasglu data meintiol ar brofiadau o droseddau a mewnwelediadau ansoddol i ganfyddiadau cymunedol.

**Casglwyd ymatebion gan 156 o gyfranogwyr**, gyda 51% yn nodi eu bod yn ffermwyr neu'n gyfrifol am fentrau ffermio.

## Nodweddion Menter Fferm



Roedd ffermydd wedi'u lleoli'n bennaf mewn ardaloedd iseldir (56%), gyda ffermydd ucheldir (24%) a mynydd (18%) hefyd yn cael eu cynrychioli. **Roedd y mwyafrif o'r ffermydd (81%) wedi'u lleoli yn ardal Heddlu Dyfed-Powys**, gyda niferoedd llai yn Ne Cymru (8%), Gogledd Cymru (10%), a Gwent (1%).

# Erledigaeth Troseddau Fferm

Mae profiad uniongyrchol o droseddau fferm yn effeithio ar leiafrif sylweddol o fusnesau amaethyddol. **Yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 22% o fusnesau fferm yn dargedau troseddu.**

## Dwyn (47%)

Y math mwyaf cyffredin o drosedd sy'n effeithio ar ffermydd, gan dargedu peiriannau, da byw ac offer

## Cyfuniad o Ddwyn a Difrod (24%)

Digwyddiadau sy'n ymwneud â dwyn eiddo a difrod troseddol

## Troseddau Eraill (18%)

Gan gynnwys ymgais i ddwyn a thargedu arbenigol

## Difrod i eiddo (12%)

Fandaliaeth a dinistr heb ddwyn

## Targedau Troseddu

Mae dadansoddiad o dargedau troseddu yn dangos bod **dwyn peiriannau yn cynrychioli 65% o ddigwyddiadau**, ac yna da byw (24%), troseddau sy'n gysylltiedig â busnesau fferm (12%), a thargedau eraill (18%). Roedd digwyddiadau penodol yn cynnwys ymgais i ddwyn cloddiwr, dwyn beiciau cwad, dwyn offer pŵer, a da byw yn cael eu lladd gan gŵn.

# Riportio Troseddau ac Ymateb yr Heddlu

Er gwaethaf effaith sylweddol troseddau gwledig, mae cyfran fawr o ddigwyddiadau yn parhau heb eu riportio, gan greu her sylweddol ar gyfer sicrhau ystadegau cywir am droseddu a gorfodi'r gyfraith yn effeithiol. Tynnodd Arolwg Troseddau Gwledig LPIP 2025 sylw at y mater hanfodol hwn, gan ddatgelu bod **78% o ddiodefwrwyr wedi dewis peidio â riportio troseddau i'r heddlu**. Mae'r tanriportio eang hwn yn awgrymu datgysylltiad dwfn rhwng cymunedau gwledig a gwasanaethau heddlu. Mae hyn yn rhwystro datblygiad strategaethau atal wedi'u targedu a dyraniad adnoddau priodol.

Mae sawl ffactor rhyng-gysylltiedig yn cyfrannu at yr amharodrwydd hwn i riportio. Mae ffermwyr yn aml yn mynegi canfyddiad bod y broses riportio yn cymryd llawer o amser heb fawr o obaith cael canlyniad llwyddiannus, yn enwedig ar gyfer troseddau eiddo. Mae ffactorau eraill yn cynnwys pryderon am gynnydd posibl mewn premiymau yswiriant, ofn dial gan droseddwyr, neu gred sylfaenol nad oes gan yr heddlu yr adnoddau penodol, y ddealltwriaeth, neu'r gweithlu sy'n angenrheidiol i ymchwilio i ddigwyddiadau troseddau gwledig yn effeithiol.

## Oferedd Canfyddedig

Y gred na fydd riportio'n arwain at arestio troseddwyr neu adfer eiddo wedi'i ddwyn yn gwneud diodefwrwyr yn gyndyn o riportio.

## Cyfyngiadau Amser

Mae amserlenni heriol ffermwyr yn aml yn golygu na allant neilltuo amser i'r broses riportio.

## Diffyg gwybodaeth leol

Teimlad nad yw ymatebwyr yr heddlu yn deall natur troseddau gwledig neu weithrediadau amaethyddol.

## Canfyddiad o Fân Ddigwyddiad

Ystyrir nad yw rhai digwyddiadau llai o ddwyn neu ddifrod yn werth yr ymdrech i'w riportio swyddogol.

Ar gyfer y lleiafrif o ddigwyddiadau a riportwyd, roedd adborth ar ymateb yr heddlu yn amrywio. Er bod rhai ymatebwyr yn cydnabod yr heriau gweithredol sy'n wynebu heddluoedd gwledig, mynegodd llawer rwystredigaeth gydag amseroedd ymateb araf, diffyg camau dilynol cyson, a datgysylltiad daearyddol a diwylliannol canfyddedig o realiti bywyd gwledig. Mae mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn hollbwysig er mwyn meithrin mwy o hyder ac annog agwedd fwy rhagweithiol at riportio troseddau o fewn cymunedau ffermio Cymru.

# Riportio Troseddau ac Ymateb yr Heddlu

Mae un canfyddiad hollbwysig yn ymwneud â'r bwlch sylweddol rhwng troseddau'n digwydd a riportio i'r heddlu. **O'r 17 fferm a brofodd droseddu, dim ond 69% a riportiodd y digwyddiadau i'r heddlu**, gyda 31% heb riportio'r troseddau.

## Rhesymau dros beidio â riportio

"Fawr o bwynt, mae'n un o'r pethau hynny ac mae'r heddlu bob amser yn brysur iawn"

"Oherwydd does byth unrhyw beth yn cael ei wneud"

"Dim pwynt ar sail profiadau blaenorol"

## Amseroedd Ymateb yr Heddlu

I'r rhai a wnaeth riportio troseddau, roedd amseroedd ymateb yn amrywio'n sylweddol:

- Ymateb ar unwaith: "10 munud. Da iawn"
- Ymateb wedi'i ohirio: "1 wythnos"
- Ymateb ar y ffôn yn unig: "Galwad ffôn. Ni ddaeth unrhyw heddlu"
- Oedi estynedig: "Chwe diwrnod"

Roedd boddhad ag ymateb yr heddlu yn gymharol isel, gyda **47% o ddioddefwyr yn rhoi'r sgôr boddhad isaf (1 allan o 10)**.

# Mesurau Atal Troseddu

Mae cymunedau gwledig wedi ymateb i fygythiadau troseddu trwy amrywiol strategaethau atal. **Mae 71% o'r ymatebwyr wedi gweithredu rhagofalon atal troseddau**, gyda 20% ychwanegol yn ystyried mesurau o'r fath.



## Systemau teledu cylch cyfng

Y mesur diogelwch a weithredir yn fwyaf cyffredin, gan ddarparu galluoedd gwylidwriaeth a chasglu tystiolaeth



## Diogelwch Gwell

Cloeon ychwanegol ar adeiladau, gatiau, cerbydau, a threlars i atal mynediad heb awdurdod



## Goleuadau Diogelwch

Systemau goleuadau sy'n cael eu hactifadu gan symudiadau o amgylch adeiladau fferm a phwyntiau mynediad



## Olrhain Asedau

Tracwyr GPS a systemau marcio fforensig ar gyfer offer a pheiriannau gwerthfawr

Roedd mesurau atal penodol a grybwyllwyd gan ymatebwyr yn cynnwys marcio DNA, gatiau diogelwch, systemau larwm, a gwasanaethau monitro proffesiynol.

# Bywyd Gwylt a Throseddau Amgylcheddol

Mae troseddau amgylcheddol yn peri pryder sylweddol i gymunedau gwledig, gydag **85% o'r ymatebwyr yn dewis cwblhau'r adran troseddau bywyd gwylt ac amgylcheddol**. Tipio anghyfreithlon yw'r drosedd amgylcheddol fwyaf cyffredin.

## Tipio anghyfreithlon (81%)

Mae dympio gwastraff anghyfreithlon yn cynrychioli'r drosedd amgylcheddol fwyaf eang sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig

## Defnyddio cerbydau oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon (56%)

Defnydd anawdurdodedig o gerbydau 4x4 a beiciau cwad yn achosi difrod amgylcheddol

## Llygredd Dŵr (41%)

Dympio gwastraff mewn afonydd a dyfrffyrdd gan effeithio ar ecosystemau

## Aflonyddu ar fywyd gwylt (21%)

Gweithgareddau anghyfreithlon sy'n tarfu ar adar, ystumod, a rhywogaethau gwarchoddedig eraill

Mae troseddau amgylcheddol eraill a nodwyd yn cynnwys ffermydd canabis (15%), hela llwynogod (20%), cloddio am foch daear (13%), a throseddau treftadaeth (18%). Soniodd ymatebwyr hefyd am broblemau gyda gweryslla anghyfreithlon, dwyn defaid, camdefnyddio plaladdwyr, a dinistrio cynefinoedd.

# Blaenoriaethau'r Heddlu a Throseddau Amgylcheddol

Mae canfyddiadau cymunedol o flaenoriaethau'r heddlu ynghylch troseddau bywyd gwyllt ac amgylcheddol yn datgelu pryderon sylweddol.

**Y sgôr flaenoriaeth gyfartalog a roddwyd i'r heddlu'n ymchwilio i droseddau bywyd gwyllt ac amgylcheddol oedd 4.2 allan o 10**, sy'n nodi blaenoriaeth ganfyddedig isel.

## Argymhellion ar gyfer Gwella

**Swyddogion Ymroddedig i Droseddau Cefn Gwlad (78%)**  
Swyddogion arbenigol gydag arbenigedd mewn troseddau gwledig a chysylltiadau cymunedol

**Buddsoddiad mewn Technoleg (43%)**  
Teledu cylch cyfyng, dyfeisiau olrhain, a systemau ANPR ar gyfer canfod ac atal


**Trin Troseddau Amgylcheddol o Ddifrif (57%)**  
Gwell cydnabyddiaeth o effeithiau a chanlyniadau troseddau amgylcheddol

**Ymgynghori Cymunedol (31%)**  
Sesiynau rheolaidd rhwng yr heddlu a'r gymuned ar gyfer rhannu gwybodaeth ac adeiladu partneriaeth

Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am well hyfforddiant, cosbau llymach, a chyfraddau erlyn gwell ar gyfer troseddau amgylcheddol.

# Effaith Troseddau ar Iechyd Meddwl a Lles


Mae effaith seicolegol troseddu ar gymunedau gwledig yn ganlyniad hollbwysig ond un sydd yn aml yn cael ei anwybyddu. **Nododd 87% o'r ymatebwyr fod troseddu yn effeithio ar eu lles a'u hiechyd meddwl**, gyda graddau amrywiol o ddifrifoldeb.



Vehicle theft = Dwyn cerbydau  
 Drug Activity = Gweithgaredd cyffuriau  
 Anti-social behaviour = Ymddygiad gwrthgymdeithasol  
 Property Damage = Difrod i eiddo  
 Burglary = Bwrgleriaeth

# Ymwybyddiaeth o Droseddau Cymunedol

Y tu hwnt i erledigaeth uniongyrchol, mae cymunedau gwledig yn dangos ymwybyddiaeth uchel o weithgarwch troseddol yn eu hardaloedd. **Mae 87% o'r ymatebwyr yn ystyried eu hunain yn byw mewn ardaloedd gwledig**, gydag 84% yn ymwybodol o droseddau'n cael eu cyflawni'n lleol.



# Newidiadau Ymddygiadol

Mae ofn troseddau yn newid ymddygiad trigolion cefn gwlad yn sylweddol, gyda **71% yn dweud eu bod wedi addasu eu hymddygiad** gan gynnwys osgoi lleoliadau penodol, bod yn fwy gwylidwrus, a mesurau diogelwch uwch.

*"Rwy'n cael fy hun ddim yn ymddiried mewn pobl o amgylch ffermydd a thir agored. Roeddwn i'n arfer stopio'r bechgyn ar feiciau neu mewn cerbydau 4x4, ond ddim mwyach."*


# Ffynonellau gwybodaeth

Mae cymunedau gwledig yn dibynnu'n helaeth ar rwydweithiau anffurfiol ar gyfer gwybodaeth am droseddu, gydag **adrodd ar lafar gwlad (77%) a'r cyfryngau cymdeithasol (59%)** yn gwasanaethu fel ffynonellau gwybodaeth sylfaenol, tra bod rhyngweithio ffurfiol â'r heddlu yn cyfrif am ddim ond 11% o ymwybyddiaeth o droseddau.

# Gwasanaethau Cymorth ac Ynysu


Mae ynysu gwledig yn gwaethygu effaith erledigaeth troseddu. **Y sgôr gyfartalog ar gyfer effaith ynysu ar ddioddefwyr troseddau gwledig oedd 6.2 allan o 10**, sy'n dangos pryder sylweddol am effeithiau ynysu daearyddol a chymdeithasol.

## Ymwybyddiaeth o Wasanaethau Cymorth




**Taclo'r Taclau**

Sefydliad cymorth mwyaf cyfarwydd




**Cymorth i ddioddefwyr**

Gwasanaethau cymorth ffurfiol i ddioddefwyr



**Sefydliad DPJ**

Sefydliad cymorth gwledig arbenigol



**Tir Dewi**

Gwasanaeth cymorth gwledig yng Nghymru

Er gwaethaf ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth, nododd llawer o ymatebwyr fynediad cyfyngedig at gymorth priodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig anghysbell lle gall modelau cymorth traddodiadol fod yn annigonol.

# Argymhellion:



**Cryfhau gallu ac amlygrwydd plismona yng nghefn gwlad:** O ystyried tanriportio parhaus (78%) a boddhad isel gydag amseroedd ymateb a champau dilynol yr heddlu, byddai ardaloedd gwledig yn elwa ar swyddogion penodol i ymdrin â throseddau yng nghefn gwlad, heddlu ar batrôl yn fwy amlwg, a chwmpas daearyddol gwell. Gall cryfhau perthynas rhwng yr heddlu a chymunedau ffermio wella ymddiriedaeth, cyfraddau riportio, a chasglu cudd-wybodaeth.



**Datblygu system riportio troseddau symlach ar gyfer ffermwyr:** Mae'r adroddiad yn dangos nad yw llawer o ddioddefwyr yn riportio troseddau oherwydd y baich amser a'r gred bod "dim byd yn cael ei wneud." Byddai llwybr riportio wedi'i deilwra—fel ap riportio cyflym penodol i gefn gwlad, ffurflenni ar-lein symlach, neu linell gymorth uniongyrchol ar gyfer troseddau gwledig - yn lleihau ffrithiant ac yn gwneud riportio yn fwy cyfleus i fusnesau fferm prysur.



**Ehangu cefnogaeth ar gyfer atal troseddau trwy dechnoleg:** Gyda 71% eisoes yn mabwysiadu rhagofalon, mae parodrwydd cryf i fuddsoddi mewn atal. Byddai cymorthdaliadau neu grantiau ar gyfer teledu cylch cyfyng, olrhain asedau, marcio fforensig, a defnydd o ANPR yn helpu i leihau dwyn a chynyddu canfod. Gallai rhaglen gydgysylltiedig o dechnoleg diogelwch wledig wella cyfraddau atal ac adfer yn sylweddol.



**Gwella gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth i ddioddefwyr yng nghefn gwlad:** Mae troseddu'n cael effaith amlwg ar les gwledig, gydag 87% yn adrodd effaith ar iechyd meddwl a llawer yn teimlo'n ynysig. Byddai ehangu mynediad at gymorth priodol i gefn gwlad - trwy Sefydliad DPJ, Tir Dewi, Cymorth i Ddioddefwyr, ac allgymorth cymunedol - yn helpu i liniaru gorbryder, ynysu, a newid ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ofn troseddau.

# Casgliadau a Goblygiadau Polisi

Mae'r arolwg cynhwysfawr hwn yn datgelu heriau sylweddol sy'n wynebu cymunedau gwledig yng Nghymru o ran atal troseddau, ymateb iddynt, ac adfer. Mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd ag ymchwil flaenorol gan yr awduron presennol, sy'n dangos problemau parhaus o ran rheoli troseddau a darparu cymorth yng nghefn gwlad.

## Canfyddiadau Allweddol



### Argyfwng tanriportio

Mae bwlch sylweddol rhwng troseddau'n digwydd a riportio i'r heddlu yn tanseilio ystadegau troseddu a dyraniad adnoddau



### Diffygion Ymateb yr Heddlu

Mae cyfraddau boddhad isel ac amseroedd ymateb annigonol yn dangos problemau systemig mewn plismona gwledig



### Epidemig Troseddau Amgylcheddol

Mae troseddau amgylcheddol eang yn gofyn am ymateb arbenigol a chosbau uwch



### Effeithiau Iechyd Meddwl

Mae ofn trosedd yn effeithio'n sylweddol ar lesiant a phatrymau ymddygiad trigolion gwledig

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cymunedau gwledig yn wynebu heriau unigryw sy'n gofyn am ddulliau arbenigol o atal troseddu, ymchwilio, a rhoi cymorth i ddioddefwyr.

# Cyfeiriadau a llyfryddiaeth

## Prif Gyfeiriadau

- Norris, G., a Morris, W. (2024). Crime and Safety in Rural Wales. Yn *Rural Crime and Community Safety*. Taylor a Francis. <https://www.taylorfrancis.com/chapters/edit/10.4324/9781003395522-24/crime-safety-rural-wales-gareth-norris-wyn-morris>
- Norris, G., a Morris, W. (2023). Rural and Farm Crime in Wales. Prifysgol Aberystwyth. <https://research.aber.ac.uk/en/publications/rural-and-farm-crime-in-wales>
- Morris, W. (2020). Rural Crime in Contemporary Britain: A Review of the Literature. *Crime Prevention and Community Safety*, 22(2), 143-160. <https://link.springer.com/article/10.1057/s41300-019-00083-5>
- Norris, G., a Morris, W. (2019). Rural and Farm Crime in Dyfed-Powys: Second Report. Prifysgol Aberystwyth. <https://research.aber.ac.uk/en/publications/rural-and-farm-crime-in-dyfed-powys-second-report>
- Morris, W., a Norris, G. (2018). The Business of Farm Crime: Building Police and Community Partnerships. Prifysgol Aberystwyth. <https://research.aber.ac.uk/en/publications/the-business-of-farm-crime-building-police-and-community-partners>
- Morris, W. (2017). Rural Crime and Community Safety Partnerships. *Safer Communities*, 16(4), 176-185. [https://pure.aber.ac.uk/ws/portalfiles/portal/29823839/Morris\\_article\\_657accepted.pdf](https://pure.aber.ac.uk/ws/portalfiles/portal/29823839/Morris_article_657accepted.pdf)

## Ffynonellau Ystadegol

- Arolwg Troseddau Gwledig LPIP 2025 – Casglu data cynradd
- Ystadegau Troseddau Gwledig Heddlu Dyfed-Powys
- Adroddiadau Arolwg Troseddau Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru
- Adroddiadau Troseddau Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru

# Ynglŷn â'r Prosiect

Wedi'i ariannu gan Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI), mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn un o bedair Partneriaeth Arloesi Polisi Lleol a sefydlwyd ledled y DU i gysylltu ymchwilwyr â llunwyr polisi a chymunedau lleol i fynd i'r afael â heriau rhanbarthol a sbarduno twf cynaliadwy a chynhwysol. Mae'n cysylltu ymchwilwyr academiaidd, cyrff cyhoeddus, sefydliadau a chymunedau'r trydydd sector a'r sector preifat, gyda'r nod o wella'r defnydd o ymchwil ac arloesi i gefnogi llunio polisiau effeithiol, datblygiad rhanbarthol cynaliadwy, a llesiant pobl a lleoedd ledled cefn gwlad Cymru.

## Dr Wyn Morris

- E-bost: [dmm@aber.ac.uk](mailto:dmm@aber.ac.uk)
- Swyddfa: C54, Adeilad Hugh Owen
- Ffôn: +44 (0) 1970 622513
- Twitter: [wyn\\_wm](https://twitter.com/wyn_wm)



Mae Dr Wyn Morris yn uwch ddarlithydd yn Ysgol Fusnes Aberystwyth. Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth yn 2001 gyda BSc mewn Rheoli Adnoddau Gwledig, gan arbenigo mewn busnes ac economeg. Aeth ei yrfa ag ef i'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw lle bu'n gweithio fel Cydlynnydd Ardystio ac Asesu tra'n astudio ar gyfer MSc Econ mewn Entrepreneuriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymunodd Wyn â staff Prifysgol Aberystwyth fel Swyddog Ymchwilio gyda'r Arolwg Busnes Fferm yn 2003, cyn ymgymryd â swydd yn yr Ysgol Busnes a Rheolaeth yn 2010. Ei brif feysydd ymchwil ac addysgu yw rheolaeth, strategaeth a gweithrediadau gyda ffocws ar entrepreneuriaeth wledig.

## Dr Gareth Norris

- E-bost: [ggn@aber.ac.uk](mailto:ggn@aber.ac.uk)
- Swyddfa: 1.33, Adeilad Penbryn 5
- Ffôn: +44 (0) 1970 621666
- Twitter: [Garethnorris1](https://twitter.com/Garethnorris1)



Mae Dr Gareth Norris yn uwch ddarlithydd yn yr Adran Seicoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth lle bu'n gyflogedig ers 2006. Mae ei brif feysydd ymchwil ac addysgu yn canolbwyntio ar seicoleg fforensig a throseddol, yn enwedig barn a gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau cyfreithiol. Ochr yn ochr â'i waith ym maes troseddau gwledig, mae wedi cynnal gwerthusiadau ar gyfer y Swyddfa Gartref ar Droseddau Difrifol a Threfnedig a gyda Chyfiawnder leuenctid yn datblygu offer asesu risg.